

## Cyfarchion gan y Prif Ymchwilydd

Croeso i'r 18fed rhifyn o gylchlythyr prosiect CorCenCC. Mae plant a myfyrwyr ar wyliau ac mae'r haul yn dal i wenu!



Mae yna 15 mis tan ddiwedd cyfnod yr ymchwil a ariennir ac mae'r cynnydd yn amlwg ... mae'r gwaith casglu data yn mynd o nerth i nerth; rydym yn cynnal y profion olaf ac yn golygu'r

offer torfol (chwiliwch am fanylion ar ein gwefan a'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol); ac mae'r tîm o drawsgrifwyr yn ehangu er mwyn ein helpu i brosesu'r data llafar a fydd yn cael eu hychwanegu at y corpws. Yn y rhifyn hwn o'r cylchlythyr, rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch casglu data diweddar, rydym yn adrodd yn ôl ar ein taith i IVACS 2018 ym Malta, ac rydym yn eich cyflwyno i aelodau newydd a phresennol tîm CorCenCC. **Mwynhewch! Y Dr Dawn Knight**

## Cynnwys

T1: Newyddion

T4: Diweddariad ar Becyn Gwaith 1 (WP1)

T5: Cwrdd â'r tîm

T6: Cysylltu â ni




## + Newyddion a digwyddiadau

### Cynhadledd IVACS (13-15/06/18)

Yn dilyn cyflwyniad Jenny Needs a Mair Rees yn Symposiwm IVACS ym Maynooth, Iwerddon yn gynharach eleni, mae'r cysylltiad ag IVACS [*Inter-Varietal Applied Corpus Studies*] yn parhau! Aeth Dawn Knight a Steve Morris i 9fed Gynhadledd IVACS ym Mhrifysgol Malta (L'Università ta' Malta), Campws Valletta ym mis Mehefin i rannu mwy o wybodaeth am CorCenCC. Cyflwynodd Dawn bapur ar '*Corpus design and construction: the challenges faced by minoritised languages*' i ystafell orlawn o gynrychiolwyr ar ail ddiwrnod y gynhadledd ac ar y diwrnod olaf, rhoddodd Steve gyflwyniad gyda'r teitl '*CorCenCC: applying the sociolinguistics of new speakers within a contemporary corpus of Welsh*'. Yr hyn sy'n drawiadol am gynhadledd IVACS yw'r pwyslais ar *gymhwyso* yng nghyd-destun gwaith ar

gorpora. Yn hynny o beth, doedd y gynhadledd ddim yn siomi ac roedd diddordeb amlwg yng ngwaith CorCenCC – sut roedden ni'n mynd ati i gasglu data mewn gwlad lle mae demograffeg y siaradwyr yn wahanol i rai o'r cymunedau ieithyddol mwy, ymateb rhai o'n cyfranwyr (e.e. '*smo 'Ngymraeg i digon da i roi i chi*') a phroblemau sicrhau bod pob amrywiad o'r iaith yn cael ei gynrychioli yn y corpws. Daeth yn amlwg wrth rwydweithio gyda'n cyd-gynadledwyr sy'n gweithio gyda'r Wyddeleg, y Fflemeg ac – er ei bod yn un o ieithoedd swyddogol y wlad – y Falteg, ein bod yn wynebu llawer o'r un heriau a bod potensial mawr i ni ddysgu wrth ein gilydd yn ogystal â gweithio gyda'n gilydd i hwyluso gwaith corpws yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifol y byd. Dyma elfen o'r prosiect yr ydym yn bwriadu ei datblygu – darllenwch y Cylchlythyr am fanylion pellach maes o law.



## Croeso i'r tîm: Alex Lovell, Prifysgol Abertawe

Yn rhifyn Ionawr 2018 y cylchlythyr, ffarwelio Mark Stonelake sydd wedi ymddeol o'i swydd ym Mhrifysgol Abertawe ac felly wedi gadael tîm CorCenCC. Yn y rhifyn hwn, rydym yn falch o gyhoeddi ein bod wedi recriwtio aelod newydd o'r tîm, a fydd yn camu i mewn i esgidiau Mark. Hoffem i bawb groesawu Alex Lovell sy'n ddarlithydd yn Adran Gymraeg Prifysgol Abertawe. Ar hyn o bryd mae Alex yn gorffen ei PhD sy'n edrych ar y modd y gellir cyflwyno Cymraeg fel ail iaith yn llwyddiannus mewn ardaloedd cymharol di-Gymraeg yng Nghymru. Gofynnem i Alex gyflwyno ei hun i chi i gyd ...

“Shwmae! Alex Lovell ydw i, ac rwy'n ddarlithydd newydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Rwy'n dod o Gil-y-Coed, Sir Fynwy, yn wreiddiol, ond rwy'n gobeithio symud i ardal Pen-y-bont yn y misoedd nesaf! Ar ôl mwynhau astudio'r iaith Gymraeg yn yr ysgol, penderfynais astudio'r Gymraeg fel gradd ym Mhrifysgol Abertawe yn 2010. Fel un a ddysgodd y Gymraeg fel ail iaith, roeddwn am ennill y sgiliau er mwyn siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl, cyn astudio i fod yn athro Cymraeg mewn ysgol uwchradd. Fodd bynnag, erbyn diwedd fy ngradd israddedig roeddwn yn dechrau ymddiddori mewn ymchwil. Pedair blynedd yn ddiweddarach ac rydw i yn y brifysgol o hyd!

O ran ymchwil, rwy' wrthi'n cwblhau fy PhD sy'n edrych ar sut orau y gellir cyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith yn llwyddiannus mewn ardaloedd cymharol ddi-Gymraeg yng Nghymru. Yn ogystal ag addysg Gymraeg Ail Iaith, mae gen i ddiddordeb mawr hefyd ym meysydd megis cynllunio ieithyddol, caffael ail iaith, polisi iaith ac addysg, dwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog. Fel darlithydd yn Adran y Gymraeg, rwy'n gyfrifol yn bennaf am addysgu ar nifer o fodiwlau iaith ar gyfer myfyrwyr ail iaith, ond rwyf hefyd yn cydlynu a chyfrannu at fodiwlau eraill ym meysydd iaith, ieithyddiaeth gymhwysol a chynllunio ieithyddol. Rwy'n falch iawn i fod yn rhan o brosiect mor bwysig ac arloesol. Edrychaf ymlaen yn fawr at gydweithio â'r tîm!”



## Croeso i'r tîm: Myfyrwyr CUROP Prifysgol Caerdydd

Yn rhifyn mis Mawrth y cylchlythyr, soniwyd am ein llwyddiant wrth ymgeisio am arian o Raglen Cyfleoedd Ymchwil Israddedig Caerdydd (CUROP). Mae'r rhaglen yn creu lleoliadau ar gyfer dau fyfyrwr israddedig dros yr haf. Rydym yn falch o gyhoeddi bod dwy fyfyrwraig wych wedi cael eu recriwtio. Dyma air o gyflwyniad gan Alys a Sali...

### Alys Greene, Myfyrwraig CUROP

Helo! Alys ydw i, ac rwyf newydd ddechrau fy ngwaith ar fy lleoliad haf gyda CorCenCC. Rwy'n dod yn wreiddiol o bentref fach yng Nghwm Gwendraeth, ond ar hyn o bryd rwy'n byw yng Nghaerdydd lle rwy'n astudio'r Gyfraith a'r Gymraeg ac ar fin dechrau fy mlwyddyn olaf. Fel rhywun a gafodd ei fagu mewn teulu Cymraeg ac a wnaeth ei holl addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, rwyf wir yn gallu gwerthfawrogi arwyddocâd y gwaith y mae prosiect CorCenCC yn ei wneud. Roedd y cyfle yn apelio ataf oherwydd y pwyslais ar gasglu data sy'n dangos sut mae'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol o ddydd i ddydd, ac rwy'n credu'n gryf bod yr iaith a ddefnyddir ar lafar yr un mor bwysig â'r iaith a ddefnyddir mewn unrhyw gyd-destun ffurfiol. Bydd fy rôl benodol i ym mhrosiect CorCenCC yn canolbwyntio ar WP3 – hynny yw, y tagio semantig o'r data a gasglwyd – ond rwy'n edrych ymlaen at helpu mewn unrhyw ffordd y galla i gydag adeiladu'r corpws Cymraeg cyfoes hwn.

*Alys Greene, Prifysgol Caerdydd*



# Cylchlythyr CorCenCC

## Sali Nichols, Myfyrwraig CUROP

Gan mod i'n byw yng Nghaerdydd, y brifddinas, mae'n eironig mai'r gair Cymraeg y gofynnir i mi ei ddweud amlaf yw

Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwlllantysiliogogoch, gydag ambell 'popti ping' ac efallai 'chwyrlligwgan' yma a thraw. Yn Abertawe, y ddinas sy'n gartref i mi, mae'n arferol hyd yn oed i rai sydd ddim yn siarad Cymraeg ddefnyddio 'bola' a 'cwtsh', felly mae lefel syndod pobl wrth glywed am y tro cyntaf fy mod i'n siaradwr Cymraeg brodorol yn dal i beri rhyfeddod i mi; sut gall pobl fyw ym mhrifddinas Cymru heb sylweddoli bod gennym ni ein hiaith ein hunain? "Ydy'r Gymraeg yn iaith go iawn?" a "Doeddwn i ddim yn sylweddoli bod pobl yn dal i'w siarad, roeddwn i'n meddwl ei bod hi wedi marw!" Mae'n siŵr bod pob siaradwr Cymraeg wedi clywed y brawddegau hyn ar ryw adeg yn eu bywyd, ond ymddengys eu bod yn fwy amlwg yng Nghaerdydd nag unrhyw le arall; hyd yn oed yng Nghlwb Ifor Bach, lle mae balchder gwladgarol mor amlwg, fe gewch ambell un yn edrych arnoch chi'n ddryslyd wrth i chi sgwrsio yn Gymraeg â'r sawl sydd y tu ôl i'r bar.

Mae fy holl fywyd academiaidd wedi digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg, ac fe ges i fy magu'n ddwyieithog gan rieni oedd yn ddoniol o wladgarol; dyw hi ddim yn anarferol gweld yr anthem genedlaethol yn gorwedd ar draws

darn o bren neu weld y faner wedi'i thaenu'n falch ar wal fy nhŷ – rydyn ni hyd yn oed yn hoffi cenhinen Bedr yn llawn aer o bryd i'w gilydd! Fe wnes i dyfu i fyny mewn pentref bach a fu gynt yn lofaol, ac fe ges i fy rhoeni'n ddirugaredd achos bod gen i'r un enw â Sali Mali (y ffordd gywir o sillafu Sali, gyda llaw), ac roedd rhywun yn holi o hyd sut roedd Jac-y-Jwc yn dod ymlaen yn fy nghaffi bach. Ond wrth edrych yn ôl fel oedolyn, rwyf wedi dod i ddeall mai ffordd unigryw Sali Mali a minnau o sillafu ein henwau sy'n rhoi i ni ein hunaniaeth; mae gan ein gwlad fach o feirdd a chantorion hanes ysgubol a iaith sy'n ddigon hardd i ddod â deigr yn i'r llygad.

Rwyf wedi dwlu ar ieithoedd ers meitin, ac yn y chweched dosbarth (lle bues i'n astudio Cymraeg, Llenyddiaeth Saesneg a Ffrangeg), fe synnais wrth sylweddoli fy mod i wrth fy modd gyda'r pynciau hyn, y rheolau gramadegol gwallgof a'r hanes rydyn ni'n eu cymryd yn ganiataol bob dydd. Un o'm hoff bethau y buon ni'n astudio oedd y ddrama 'Siwan' gan Saunders Lewis. Llwyddodd Lewis i gyfuno hanes cywrair Llywelyn Fawr a'i berthnasau â'i arddull ysgrifennu ddihafal ei hun, a fydda i byth yn blino ar ddarllen y ddrama hon. Yn ddiamau mae fy magwraeth ddwyieithog wedi gwreiddio fy nghariad at ieithoedd yn ddwfn, ac wedi paratoi fy llwybr ym maes ieithyddiaeth; oni bai am y Gymraeg, nid y person ydw i nawr


Rhifyn 18, Gorffennaf 2018

fyddwn i, a fwy na thebyg fyddwn i DDIM yn astudio'r Ffrangeg a'r Eidaleg yn y Brifysgol.

Wrth i mi a'm ffrindiau eistedd mewn bar awyr agored gwledig hyfryd, rydyn ni'n cellwair fy mod i'n 'Ffrengig fy ysbryd' wrth i mi sipian fy ngwydraid o Chardonnay Semillon a cheisio cadw fy minlliw coch trawiadol yn ei le. Ond o dan y ffasâd ymddangosiadol Ewropeaidd mae merch sy'n canu mewn côr ac yn adrodd barddoniaeth yn ysu am gael dianc. Fel plentyn, byddwn i'n treulio pob haf wrthi fel lladd nadroedd yn teithio i'r Eisteddfod nesaf, gan wneud yn siŵr mod i ddim yn mynd i helynt achos bod fy nhei'n gam a'm gwallt yn flêr.


Ieithoedd, yn enwedig y Gymraeg, yw fy mywyd yn anad dim, ac mae'r prosiect CorCenCC yn gyfle delfrydol i mi ehangu fy ngwybodaeth am y Gymraeg a'i hamrywiadau ar draws y wlad. Heb amheuaeth, mewn byd sydd ag obsesiwn â'r digidol ac amser, mae rhywun bron yn anghofio sut mae cyfathrebu'n gain ac yn fedrus, a

dyna pam mae harddwch iaith a llenyddiaeth yn dod yn fwy gwerthfawr nag erioed. Yn union fel y dodo, os bydd iaith yn rhoi'r gorau i




ddatblygu, bydd yn peidio â bod yn weithredol ac yn marw allan. Er mwyn goroesi rhaid iddi esblygu ochr yn ochr â chynnal ei gwreiddiau hanesyddol, ac mae'n hanfodol bwysig ein bod yn cofio hanes ein mamiaith. **Sali Nichols, Myfyrwraig CUROP Prifysgol Caerdydd**

## Diweddariad ar Becyn Gwaith 1: Golwg ar gasglu data gan Lowri Williams

Mae tymor yr haf wedi cychwyn a hefyd mae ein tymor casglu data! Mae aelodau'r pecyn WP1 wedi bod yn teithio ymhell ac ar draws Cymru, yn casglu data llafar o wahanol gyd-destunau ac yn dogfennu hyn trwy gymryd rhai lluniau hyfryd fel y gwelir yma (darperir gan lowriawilliams ).

Mae yna nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru dros yr haf. Cychwynnodd ein tymor casglu data ym mis Mai, lle mynychodd Jenny, Mair a finnau Eisteddfod yr Urdd a gynhaliwyd ar faes y Sioe Frenhinol yn Llanfair-ym-Muallt. Gyda phresenoldeb blynyddol o 90,000, mae'r digwyddiad hwn yn denu cynulleidfa amrywiol o oedrannau, yn ogystal â galluoedd yr iaith Gymraeg. Roedd y tywydd yn wych ac roedd hi'n braf bod allan o'r swyddfa am ychydig o ddyddiau. Ond roedd hi'n arbennig o braf clywed bod llawer o bobl eisiau cyfrannu at y prosiect a bod nifer o'r cyfranwyr hynny yn ddysgwyr Cymraeg oedolion.

Gydag ychydig dros flwyddyn yn weddill ar y prosiect, dyma'r cyfle olaf i gasglu data yn yr Urdd. Mae ein franwaith samplo, sy'n ein harwain wrth gasglu casgliad iaith cytbwys o wahanol gyd-destunau, mathau a chyfranwyr, yn cynnwys sgyrsiau cymdeithasol o Eisteddfod yr Urdd. Yn dilyn ein presenoldeb, rydym yn falch ein bod wedi casglu bron i ddwywaith y targed. Yn dilyn yr Urdd, aeth Jenny a finnau i fyny i Ogledd Cymru lle gwnaethom dreulio ychydig o ddyddiau yn Ninbych, Rhuthun, yr Wyddgrug, a Wrecsam. Buom yn llwyddiannus yn recordio mewn sawl siop leol, caffis, tafarndai, llyfrgelloedd a swyddfeydd. Cefais gyfle hefyd i gymryd un o'm hoff luniau hyd yn hyn; llun o fflag Cymru yn sefyll yn falch yn erbyn y gwynt a'r awyr llwyd o du mewn i Gastell Ddinbych. Rydym yn gobeithio dychwelyd i'r ardaloedd hyn yn y dyfodol i gasglu mwy o ddata.



Yn ein digwyddiad nesaf, fe wnaethom ni ddychwelyd i gastell y brifddinas ar gyfer Tafwyl. Gyda phresenoldeb blynyddol o 38,000, mae Tafwyl hefyd yn denu cynulleidfa amrywiol o siaradwyr Cymraeg. Roedd haul poeth mis Mehefin yn tasgu, gan adael i ymwelwyr fwynhau'r gerddoriaeth fyw, y bwydydd, y diodydd a'r stondinau. Bu i Jenny a minnau gyfarfod â chyfranwyr newydd a'u cyflwyno i'n ap torfoli. Fe wnaethom hefyd ddal i fyny gyda rhai sydd eisoes wedi cyfrannu data ac yn dilyn y prosiect. Mae gwybod bod gennym gefnogaeth barhaus y gymuned sy'n siarad Cymraeg yn gymhelliad cryf i ni yn ystod cyfnod olaf y prosiect.

Y lleoliad diweddaraf oedd Pen Llŷn. Yn hanesyddol, roedd pererinion yn teithio ar y penrhyn tuag at Ynys Enlli, lle honnir bod dros 20,000 saint wedi cael eu claddu. Nid yn unig mae ei lleoliad anghysbell wedi helpu i warchod yr

iaith Gymraeg, ond hefyd y ddelwedd bod yr ardal hon, fel y cyfansoddodd J. Glyn Davies, yn "Le i enaid gael llonydd".

Yn wreiddiol o Llyn, gall un ddweud fy mod wedi mynd ar fy mhererindod casglu data fy hun! Roedd hi'n braf dychwelyd i siarad â ffrindiau, teulu, ac aelodau'r gymuned sy'n teimlo'n angerddol am yr iaith Gymraeg. Mae'r penrhyn yn cynnwys poblogaeth uchel o dwristiaid a pherchnogion tai gwyliau. Mae cartrefi gwyliau yn parhau i fod yn fater dyrys ymhlith pobl leol, sy'n ymdrechu i gadw'r iaith yn fyw trwy sicrhau bod eu gohebiaeth mewn sawl cyd-destun yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n cyfrannu at y boblogaeth fawr o siaradwyr Gymraeg yng Ngwynedd.

Rydym wedi ymweld â rhai ardaloedd yng Ngwynedd yn y gorffennol ac mae'n ddiddorol iawn clywed y gwahaniaethau yn yr iaith pan nad oes ond ychydig filltiroedd sy'n eu gwahanu. O "ia" Caernarfon i "de" Llyn a Meirionydd, rydym wedi casglu data o sawl lleoliad yn y sir. Yn ystod yr ymweliad hwn, cefais y cyfle i recordio yn yr ysgol gynradd a fynychais. Doeddwn i ddim yn medru helpu teimlo'n deimladol yn dychwelyd i "lle dechreuodd popeth". Nid yn unig oherwydd fy mod i newydd raddio ym mis Gorffennaf ac yn cofio atgofion o fy mhлentyndod, ond hefyd i gael yr ysgol mor gynorthwyol yn eu cyfraniad i'r prosiect. Mae'n wir dweud bod cyfranwyr o bob oedran tu ôl i'r prosiect a'r iaith Gymraeg. Y digwyddiad nesaf fydd yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, a gynhelir ym Mae Caerdydd. Nid yn unig y byddwn ni'n casglu data, ond rydym hefyd yn cyflwyno'r prosiect a rhai o'm hallbynnau hyd yn hyn ym mhabell Prifysgol Caerdydd. Dewch i ddysgu mwy am 12 o'r gloch ar ddydd Mercher yr 8fed, a dewch i siarad â ni os gwelwch ni o gwmpas y maes hefyd!

*Y Dr Lowri Williams, Prifysgol Caerdydd*



## + Cwrdd â'r tîm: Andrew Hawke, Aelod o Grŵp Ymgynghorol y Prosiect, Geiriadur Prifysgol Cymru

Dechreuodd fy niddordeb mewn iaith a chyfrifiadureg yn yr ysgol yn y 1970au. Yr oeddwn yn ymwybodol o dras Gernywaidd fy nhad a dechreuais ymddiddori yn y Gernyweg, yr oedd ei hadfywiad wedi dechrau ennill momentwm erbyn hynny. Cefais fy nghyflwyno i gyfrifiaduron tua'r un pryd fel rhan o gwrs Astudiaethau Cyffredinol yn y chweched dosbarth, gan ddefnyddio tyllwr cardiau llaw a'r cyfrifiadur mawr yng Nghanolfan Gyfrifiadura Prifysgol Llundain yn Imperial College. (Rwy'n dal i gofio mai'r cod am 'A' yw'r tyllau 0, 6, a 5, wedi eu pwnsio yn yr un golofn.) Fe fyddem yn ysgrifennu ein rhaglenni (yn Fortran 66) a data (yn fformat EBCDIC), rhoi'r cardiau mewn bocs cryf, eu postio i Imperial, ac aros i'r staff dychwelyd y cardiau rai dyddiau'n ddiweddarach ynghyd â rhywfaint o allbwn llin-argraffydd (*lineprinter*) gyda'r negeseuon gwallau anoche! Ac felly byddai'r cylch yn dechrau eto. Am ryw reswm cymerais at hyn, a dechreuais chwilio am ddeunydd i'w brosesu. Yn y pen draw, cefais



argraffiad 1859 o nifer o ddramâu Cernyweg Canol, a theipiais y testun ar ryw 9,000 o gardiau tylllog (y tro hwn gan ddefnyddio peiriant tyllu cardiau modern a roddwyd yn garedig i'r ysgol gan NCR oedd â swyddfa yn yr un dref).

Penderfynais ddarllen Astudiaethau Celtaidd yn y brifysgol a dewis Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, lle'r oedd fy niddordeb mewn cyfrifiadureg yn parhau. Roeddwn wedi darllen am goncordansys a gynhyrchir gan gyfrifiadur, ac roedd meddalwedd Fortran ar gael o'r enw COCOA. Yn fuan roeddwn yn cynhyrchu rhestrau geiriau a choncordansys gan ddefnyddio cyfleusterau pell Canolfan Gyfrifiadurol Ranbarthol Prifysgol Manceinion (UMRCC), yn dal i ddefnyddio cardiau tylllog, tapiâu magnetig, ac allbwn llin-brintydd. Roedd cyfrifiaduron yn datblygu'n gyflym iawn yr adeg honno, ac roedd disgiau caled, teleprinters, a VDUs cyntefig (unedau arddangos gweledol) ar gael yn fuan, ac uwchraddiwyd caledwedd y cyfrifiadur prif ffrâm lleol fel nad oedd angen defnyddio cyfleusterau UMRCC, a oedd yn rhyddhad mawr i staff TG amyneddgar Aberystwyth a ddychwelodd o bryd i'w gilydd o gyfarfodydd ym Manceinion gyda bocseidiau o bapur llin-brintydd i mi. Erbyn y 1980au cynnar, yr oeddwn yn gwneud ymchwil doethurol tuag at eiriadur hanesyddol y Gernyweg, a

pherswadias yr Adran Gymraeg i ddarparu ystafell fechan yn yr Hen Goleg i mi, a'r Uned Gyfrifiadur i redeg cebl i lawr y bryn o'r ystafell gyfrifiadur i VDU newydd. Gweithredodd hyn ar gyflymder o 300 baud (sef 300 bits [sic] yr eiliad) hyd at uchafswm (mewn tywydd sych!) o 1200 baud, yn ddigonol i deipio a golygu testunau a chod. Tua'r adeg honno roedd microgyfrifiaduron busnes go iawn yn dechrau ymddangos, ac yn ffodus, roedd Uned Gyfrifiadur Aberystwyth wedi mabwysiadu'r dechnoleg yn gynnar. Dechreuais archwilio'r posibiladau o ddefnyddio'r dechnoleg newydd i ddadansoddi testunau.

Ymunais â staff *Geiriadur Prifysgol Cymru* ym 1983, heb orffen fy ymchwil. Roedd y cyfle i gael swydd gyda'r Geiriadur yn ormod o demtasiwn, a chyn bo hir dechreuais feddwl am gyfrifiadura'r gwaith. Erbyn 1987 roeddem wedi dechrau cysodi'r geiriadur ein hunain, felly o *m-* ymlaen roedd y testun ar gael yn electronig. Dechreuwyd cynllun 'ôl-drosi' i droi testun y ddwy gyfrol gyntaf o'r Geiriadur i ffurf ddigidol – cyfwerth â chwe Beibl! Gorffennwyd yr ôl-drosi yn 2000, a'r Geiriadur ei hun yn 2002, ac yna aethom yn ôl i ddechrau'r wyddor i ailolygu'r llythrennau cynharaf. Daeth yn amlwg mai ar lein y dylai'r Geiriadur fod, a diolch i fuddsoddiad mawr gan Brifysgol

Cymru a help cwmni meddalwedd EMP o Gopenhagen, troswyd yr holl ddata i XML ac Unicode, a lansio GPC Ar Lein yn 2014 (<http://gpc.cymru>). Enillwyd grant gan Lywodraeth Cymru yn fuan wedyn i greu apiau iOS ac Android, ac erbyn hyn mae GPC ar gael yn ei gyfanrwydd fel ap – y geiriadur hanesyddol cyflawn cyntaf i ymddangos fel ap, rwy'n credu. (Chwiliwch am 'GPC' yn Google Play neu'r Apple Appstore.)

Mae data electronig o bwys aruthrol i ni gan ein bod yn gallu ei chwilio'n hawdd er mwyn dod o hyd i ddata crai'r Geiriadur. Dros y blynyddoedd rydym wedi casglu cannoedd o filiynau o eiriau o destunau o bob oed. Yn naturiol, mae prosiect CorCenCC o ddiddordeb mawr i ni fel ffynhonnell Cymraeg Cyfoes o bob math, ac roeddwn i'n hapus iawn i gael gwahoddiad i wasanaethu ar y Grŵp Ymgynghorol. O'n rhan ni, mae'r Geiriadur wedi cyfrannu data sylfaenol o'r Geiriadur ei hun er mwyn gwella'r tagiwr rhannau ymadrodd a hefyd i ategu prosiect Wordnet Cymraeg. Mae'n braf gweld pawb yn cyd-dynnu mor effeithiol, ac mae clod mawr yn ddyledus i arweinwyr y prosiect am drefnu'r holl waith mor ofalus. Edrychwn ymlaen at weld ffrwyth y prosiect.

## + Cysylltu â ni

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r prosiect hefyd ar gael drwy Facebook: [www.facebook.com/CorCenCC/](http://www.facebook.com/CorCenCC/); Twitter <https://twitter.com/corcencc> (gallwch ein trydar @CorCenCC). Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy anfon neges i gyfeiriad ebost y prosiect: [corcencc@caerdydd.ac.uk](mailto:corcencc@caerdydd.ac.uk) neu ewch i'n gwefan, sef: [www.corcencc.cymru](http://www.corcencc.cymru)



Arts & Humanities  
Research Council

Mae CorCenCC yn brosiect ymchwil a ariennir gan ESRC/AHRC (Grant Rhif ES/M011348/1). Mae tîm CorCenCC yn cynnwys y Prif Ymchwilydd - Dawn Knight; y Cyd-Ymchwilywyr - Tess Fitzpatrick, Steve Morris, Irena Spasić, Paul Rayson, Enlli Thomas, Alex Lovell a Jonathan Morris; y Cynorthwywyr Ymchwil - Steven Neale, Jennifer Needs, Mair Rees, Scott Piao a Lowri Williams; y myfyriwr PhD - Vigneshwaran Muralidaran a Bethan Tovey; Ymgynghorwyr - Kevin Donnelly, Kevin Scannell, Laurence Anthony, Tom Cobb, Michael McCarthy a Margaret Deuchar; Grŵp Ymgynghorol y Prosiect - Colin Williams, Karen Corrigan, Llion Jones, Maggie Tallerman, Mair Parry-Jones, Gwen Awbery, Emyr Davies (CBAC-WJEC), Gareth Morlais (Llywodraeth Cymru), Owain Roberts (Llyfrgell Genedlaethol Cymru), Aran Jones (Saysomethingin.com) ac Andrew Hawke (Geiriadur Prifysgol Cymru). Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am gynnwys y cylchlythyr hwn, cysylltwch â Dr Dawn Knight: [KnightD5@caerdydd.ac.uk](mailto:KnightD5@caerdydd.ac.uk)